

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 5ed Mawrth, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Alun Jenkins (Cadeirydd); Brython Davies, Eluned Evans, Jane Hopkins, Rhodri Jenkins, Phil Lloyd, Elise Powell, Cyng. Rhodri Davies

1. YMDDIHEURIADAU:

James Raw

2. COFNODION 5ed Chwefror, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd gan Jane Hopkins ac aelwyd gan Phil Lloyd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (a) Cyfarfod Cynghorau Bro Cyfagos.
Cynhelir cyfarfod yn Neuadd Lisburn Llanafan ar nos Lun 23in o Fawrth, 2015 am 7.30 y.h.
- (b) Cofnod 4 (ch) Adroddwyd fod 2 diffibilatwr wedi glustnodi ar gyfer Cwmystwyth drwy Calon Cymru, un i'w leoli ym Mhwllpeirian a'r llall yn ganol Pentre.
- (c) Ni dderbyniwyd ymateb wrth y Swyddfa Bost na'r Post Brenhinol yn dilyn ymholiadau diweddar.
- (ch) Tyllau Ffordd yn y Rhewl Rhos Perian - Y Clerc wedi danfon manylion i'r Cyngor Sir, ni dderbyniwyd ymateb ond rhif cyfeirnod sef 101838.
- (d) Dwr a Rhew ar y ffordd heibio Tyllwyd, Cwmystwyth - rhif cyfeirnod 101839.

4. GOHEBIAETH

- (a) **Asesiad Risg:** Adroddodd y Clerc fod angen cyflwyno holiadur risg ariannol/iechyd a diogelwch i'r aelodau. Aed drwy cwestiynau perthnasol ac ymatebodd yr aelodau yn negyddol/cadarnhaol i'r cwestiynau.
- (b) **Safle We:** Yr safle we newydd yn barod i fynd yn fyw. Penderfynwyd talu swm o £714.00 (£600 am gynllunio'r safle we; £94.00 am yr enw domain am ddwy flynedd; £20.00 am cyfrif cynnal y safle we am flwyddyn) i Alan R. Cole, Pixelwave Design. Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Elise Powell.
- (c) **Defnydd Ysgol Mynach ar gyfer cyfarfodydd**
Cynigiwyd gan Brython Davies ac eiliwyd gan Eluned Evans taliad swm o £210.00 (£175.00 a £35.00 TAW) i Gyngor Sir Ceredigion am ddefnydd Ysgol Mynach o'r 24ain Ebrill 2014 hyd 5ed Mawrth 2015, cyfanswm o 17.5 awr).
- (ch) **Llwybr Troed ym Mhontarfynach**
Derbyniwyd ohebiaeth gan Alun G. Davies, Prif Beiriannydd Cyngor Ceredigion yn adrodd ar sefyllfa Rhan 3 yr uchod. Nodwyd fod y Cyngor Sir dal yn aros i Cynulliad Cymru i gyhoeddi mecanwaith meini prawf a'r cyllid ar gyfer y cais am grantiau ariannol y flwyddyn nesaf.

(d) **Rhoddion 2015**

Derbyniwyd lythyr personol wrth David Ebenezer, cyd-lynydd yr apel Pabi, Cylch Aberystwyth yn diolch i aelodau'r Cyngor Bro am y rhodd ariannol.
Derbyniwyd hefyd cydnabyddiaeth wrth y Ddolen a'r Ambiwlans Awyr.

(dd) **Ymgynghoriad ynghylch Canllaw Cynllunio Atodol Drafft y CDLI y Gymuned a'r Gymraeg**

Cyfeiriwyd fod ymgynghoriad gan Cyngor Sir Ceredigion ar yr uchod rhwng 19eg Chwefror a'r 8fed o Ebrill.

5. **CAIS CYNLLUNIO - CODI 11 ANNEDD a GWAITH CYSYLLTIEDIG, Tir gyferbyn a Pendre, Pontarfynach, Aberystwyth.**

Datganodd Eluned Evans ddiddordeb, arwyddodd y llyfr a gadawodd yr ystafell.
Cafwyd trafodaeth faith ar y cais cynllunio uchod a phenderfynwyd yn unfrydol ar y datganiad isod yn dilyn cynnig gan Phil Lloyd a Rhodri Jenkins yn eilio.

There was an unanimous decision that there would be no objection to the outline planning application but concern was expressed about the treatment plant for the sewerage. Further investigation would be needed as the current water supply within the village of Devil's Bridge is inadequate, the current supply is on an old water system in which the proposed treatment plant could put further pressure on the existing supply.

The development would enhance the population of the village which could be advantageous to the future of Mynach Primary School.

It is hoped that a percentage of these new houses would be 'affordable homes'.

At present there is no regular public transport within Devil's Bridge. As these new developments would bring in additional population the Community Council would appreciate if the situation of public transport within the area could be assessed, especially as the village shop has recently closed and there are no local amenities to be had.

Cafwyd penderfyniad unfrydol gan aelodau'r Cyngor Bro na fyddai unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio amlinellol, ond mynegwyd pryder ynghylch y cyfarpar ar gyfer trin y carthffosiaeth. Byddai angen gwneud ymchwiliad pellach i'r system garthffosiaeth gan fod y cyflenwad dŵr presennol o fewn y pentref Pontarfynach yn annigonol, mae'r cyflenwad presennol ar hen system ddŵr ac fe allai'r system arfaethedig roi pwysau ychwanegol ar y cyflenwad presennol.

Byddai'r datblygiad yn gwella poblogaeth y pentref a allai fod o fantais i ddyfodol Ysgol Gynradd Mynach.

Y gobaith yw y byddai canran o'r aneddai yma yn 'dai fforddiadwy'.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drafnidiaeth cyhoeddus rheolaidd ym Mhontarfynach. Gan y byddai'r datblygiadau newydd hyn yn ehangu poblogaeth yr ardal byddai'r Cyngor Bro yn gwerthfawrogi pe aser sefyllfa trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn enwedig gan y caeodd siop y pentref yn ddiweddar ac nid oes unrhyw gyfleusterau lleol ar gael.

6. **UNRHYW FATER ARALL**

- (a) Arwyddion Dim Sat Nav
Dangoswyd pryder fod cerbydau mawr yn dilyn peiriannau 'sat navs' yn rheolaidd ar hyd y ffyrdd bach o amgylch Trisant ac yn mynd i drafferthion yn aml, gan fynd ar ofyn preswylwyr lleol i'w cynorthwyo 'nol i ffordd addas. Penderfynwyd bod y clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn iddynt ddodi arwyddion nad yw'r ffyrdd yn addas ar gyfer cerbydau mawr/peidio a dilyn peiriannu 'sat nav' mewn lleoliadau gyferbyn a'r ysgol, ger Penbwlchcrwys, ger Lletyshinnod, ger y Llyn yn Nhrisant, cornel Brynamlwg ac hefyd bob ochr i'r fynedfa i'r ffordd heibio Rhydyperirinion. Cynigiwyd yr uchod gan Alun Jenkins ac aelwyd gan Rhodri Jenkins.
- (b) Adroddwyd fod wal Bont ar Twll wedi cwmpo ac angen sylw brys. Cynigiodd Jane Hopkins ac eiliwyd gan Elise Powell fod y Clerc yn cysylltu gyda Tony Ellis o'r Comisiwn Coedwigaeth.
- (c) Cyfeiriwyd fod dwr yn rhedeg o'r ffordd fawr i dir y Capel yng Nghwmystwyth ac yn rhedeg mor bell a grisiau y Capel. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Sir Ceredigion i ofyn iddynt weithredu ar y sefyllfa ar frys.
- (ch) Nodwyd fod y tap oren ar y ffordd gyferbyn a mynedfa maes parcio'r Hafod ym Mhontarfynach wedi cwmpo ac angen ei ail-leoli ar frys.
- (d) Adroddodd Cyng. Rhodri Davies fod yna dir lithriad wedi digwydd ar ochr y ffordd agos i Ty Mawr, Cwmystwyth. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (dd) Nododd Cyng. Rhodri Davies hefyd fod trefniadau mewn lle ar gyfer edrych ar gyflymder cerbydau tu allan i'r Ysgol ym Mhontarfynach ar gyfer posibilrwydd i ostwng y cyflymder o 30 milltir yr awr i 20 m.y.a.
- (e) Derbyniwyd manylion fod trigolion Cwmystwyth yn awyddus i gael golau stryd yng nghanol Pentre Cwmystwyth. Trafodir yn y cyfarfod nesaf.
- (e) Cyflog Clerc
Cytunwyd i dalu cyflog i'r Clerc - £531.51 (£489.60.00 cyflog a £41.91 costau) a thalwyd £122.40 i HMRC am PAYE y clerc. Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac ailiwyd gan Phil Lloyd.

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF
Nos Iau 2 Ebrill, 2015 yn Ysgol Mynach.